

# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

## ADRODDIAD BLYNYDDOL

## 2023-24

Pembrokeshire Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro

# CYNNWYS


Adran 1
Rhagair
Tudalen 3

Adran 2
Cyflwyniad a Chyd-destun
Tudalennau 4 - 5

Adran 3
Cyflawni ac Adrodd
Tudalennau 6 - 7

Adran 4
Blwyddyn 1 – Gweithgaredd is-grŵp prosiect
Tudalennau 8 - 12

Adran 5
Arolwg o Aelodau'r BGC – syniadau ar gynnydd a rhwystrau i gyflawni
Tudalennau 13 - 14

Adran 6
Edrych ymlaen – Blwyddyn 2
Tudalen 15

# Rhagair

Croeso i'r adroddiad blynyddol cyntaf ar gyfer ein Cynllun Llesiant newydd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023, sy'n amlinellu'r cynnydd yn erbyn cyflawni'r amcanion a nodir yn y cynllun.

Hon hefyd yw fy mlwyddyn lawn gyntaf fel Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro, ac mae'n gyfle i mi fyfyrio ar ein cynnydd. Wrth gyfyngu ar ein hamcanion credaf ein bod wedi canolbwyntio mwy ar gydweithio traws-sector a mynd i'r afael â heriau a rennir, rydym wedi rhoi strwythur cyflenwi ar waith sy'n mynd â ni o'r ystafell fwrdd (rithwir) i ddarpariaeth weithredol, ac rydym hefyd wedi achub ar y cyfle i ymgysylltu'n ddyfnach â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru ac ar draws tirwedd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Gyda'r argyfwng ariannol parhaus mewn gwasanaethau cyhoeddus, a'r ffocws angenrheidiol ar y presennol, mae gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn bwysig yn yr ystyr ein bod yn canolbwyntio'n fanwl iawn ar y tymor hir. Felly, gall y gwaith a wnawn gymryd amser i'w gwblhau a theimlo'n anweledig, ond mae'r gwaith a wnawn ar y cyd yn gwbl angenrheidiol ar gyfer llesiant ein cymunedau ledled sir Benfro yn y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn amlinellu gwaith partneriaid y byrddau gwasanaethau cyhoeddus wrth gyflawni ein dyletswydd llesiant cyfunol i wella llesiant economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol pobl a chymunedau yn Sir Benfro, nawr ac yn y dyfodol. Mae hyn yn golygu gweithio mewn ffordd wahanol a chanolbwyntio'n unig ar feysydd lle gall y broses o weithio mewn partneriaeth gael yr effaith fwyaf a lle mae ein dylanwad ar y cyd yn ychwanegu gwerth y tu hwnt i'r hyn yr ydym eisoes yn ei wneud fel sefydliadau unigol.

Yn yr adroddiad hwn rydym hefyd yn myfyrio ar effaith llai o adnoddau ar draws y gwasanaethau cyhoeddus ac yn nodi materion sy'n cyfyngu ar gynnydd. Rydym hefyd yn amlinellu ein hymagwedd at gyflawni ac adrodd, sy'n canolbwyntio ar atebolrwydd a sicrhau cynnydd fesul cam ar draws pob un o'n meysydd prosiect. Mae'r rhain i gyd yn faterion yr ydym yn eu hystyried ar ryw lefel ym mhob un o'n cyfarfodydd ond mae'r Adroddiad Blynyddol yn rhoi'r cyfle i'w hystyried mewn ffordd fwy penodol.

Dim ond un person ydw i sy'n ymwneud â'r gwaith hwn, ac felly rwy'n ddiolchgar i'm cydweithwyr ar y Bwrdd, fy nghydweithwyr sy'n ymwneud â chyflenwi gweithredol, a'n tîm cymorth rhagorol am ei ymrwymiad parhaus i wella llesiant pobl a chymunedau yn y sir. Rwyf hefyd wedi cael fy nghalonogi gan y rhai sydd wedi dangos diddordeb ac wedi mynegi cefnogaeth i waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus, p'un a ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol ai peidio. Gyda'u cefnogaeth hwy a'n cymunedau, ein nod yw cael effaith ystyrlon ar fywydau dinasyddion ledled Sir Benfro.



**Neil Prior**
Chair, Pembrokeshire PSB

# Cyflwyniad a Chyd-destun

Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro ym mis Mai 2016 ac mae'n bartneriaeth strategol statudol a grëwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Bwrdd yn dod ag uwch-arweinwyr ynghyd o sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector sy'n anelu at wella llesiant yn Sir Benfro drwy gydweithio i fynd i'r afael â blaenoriaethau a rennir.

Mae BGC Sir Benfro ar hyn o bryd yn cynnwys y sefydliadau canlynol;

- • Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- • Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- • Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- • Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
- • Cyfoeth Naturiol Cymru
- • Porthladd Aberdaugleddau
- • PLANED
- • Iechyd Cyhoeddus Cymru
- • Cyngor Sir Penfro
- • Coleg Sir Benfro
- • Heddlu Dyfed–Powys
- • Canolfan Byd Gwaith
- • Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
- • Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF

Cyhoeddwyd ein hail Gynllun Llesiant ym mis Mai 2023. Mae'r cynllun yn cynrychioli'r gwerth ychwanegol yr ydym yn gobeithio ei gyflawni drwy weithio'n arloesol ac ar y cyd fel partneriaid ac mae ein hamcanion llesiant yn adlewyrchu hyn. Sef;

- Gweithio gyda'n cymunedau i leihau anghydraddoldebau a gwella llesiant
- Hyrwyddo a chefnogi mentrau i gyflawni datgarboneiddio, rheoli ymaddasu i'r
- newid hinsawdd a mynd i'r afael â'r argyfwng ym myd natur
- Sicrhau bod ein cymunedau yn ddiogel, yn gysylltiedig, yn ddyfeisgar ac yn
- amrywiol
- Cefnogi twf, swyddi a ffyniant a galluogi newid i economi gwyrddach a mwy
- cynaliadwy

Er bod gennym amcan llesiant sy'n ymwneud â'r economi a thwf, mae ystod eang o drefniadau partneriaeth a byrddau eisoes yn bodoli sy'n canolbwyntio ar y gwaith hwn yn yr ardal leol. Felly, er mwyn osgoi dyblygu, mae'r BGC wedi cytuno i beidio â gweithio'n uniongyrchol tuag at gyflawni'r amcan hwn, ond i fanteisio ar gyfleoedd i gyfrannu at yr amcan hwn dros y pum mlynedd nesaf, y gellir darparu rhai ohonynt drwy weithgarwch sydd â'r nod o gyflawni ein hamcanion eraill.

Wrth ddatblygu ein Cynllun Llesiant newydd, roeddem yn ymwybodol o'r hyn a ddysgwyd o'n cynllun diwethaf ynghylch nifer yr amcanion a phrosiectau y gallwn ganolbwyntio arnynt yn realistig er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau cyfyngedig a sicrhau ein bod yn cyflawni'n effeithlon. Felly, mae'r BGC wedi dewis canolbwyntio ei ymdrechion a'i amser ar y cyd ar gyflawni'r cynlluniau prosiect a nodir yn ein cynllun a hefyd ar flaenoriaethau eraill

a all godi lle y gall wneud gwahaniaeth gwirioneddol. Tra bod ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n digwydd ledled ein sir ac yn y rhanbarth yn bwysig, nid ydym am i'r gwaith gael ei fwrw i'r cysgod gan elfennau nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni.

Wrth baratoi'r adroddiad blynyddol hwn gwnaethom gynnal arolwg o aelodau ein BGC i gael cipolwg ar eu syniadau a'u profiadau ynghylch cynnydd a chyflawniad y cynllun hyd yma. Archwilir eu hymatebion yn Adran 5, a byddant yn helpu i nodi meysydd i'w gwella ac i ganolbwyntio arnynt wrth symud ymlaen.



# Cyflawni ac Adrodd

Cyn i Gynllun Llesiant 2023-28 gael ei gyhoeddi, bu'r BGC yn trafod a chytuno ar strwythur ar gyfer cyflawni cynlluniau prosiect a'r trefniadau adrodd a fyddai'n rhan o hyn. Cytunwyd ar ddull Aur/Arian/Efydd, gyda phob lefel â'i rôl benodol ei hun fel yr amlinellir isod;

## *CYNLLUN LLESIANT BGC STRWYTHUR CYFLWYNO*

### *AUR*

***BGC***

Cyfeiriad strategol, cymorth a her / Goruchwylio cynnydd a chyflawniad y prosiect / Cyfrifoldeb ac atebolrwydd a rennir

### *ARIAN*

***Grwpiau Prosiect***

- **Grŵp Tlodi**
- **Grŵp Natur, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd**
- **Grŵp Cryfhau Cymunedau**

- Nodi a dyrannu adnoddau sefydliadol
- Cyflawni cynlluniau prosiect
- Monitro a mesur cynnydd
- 'Sbotolau' yn adrodd ac uwchgyfeirio pryderon a materion i Aur (BGC)
- Nodi themâu trawsbynciol ar draws meysydd prosiect
- Arwain ar ymgysylltu ar gyfer pob maes prosiect

### *EFYDD*

***Grwpiau Cefnogi (ee)***

- **Grŵp Gweithredol Cryfhau Cymunedau**
- **Partneriaeth Bioamrywiaeth Sir Benfro**
- **Grŵp Prosiect Cadw'n Gynnes, Cadw'n Iach**
- **Eraill fel y bo'n briodol**

- cefnogi grwpiau prosiect i gyflawni cynlluniau prosiect
- darparu gwybodaeth am y gymuned / dinasyddion i Arian
- codi pryderon a materion i Arian

Rôl y tri grŵp lefel Arian sy'n cydgysylltu yw sicrhau bod y BGC yn atebol ac yn cymryd cyfrifoldeb am gyflawni'r cynllun. Gyda hyn mewn golwg, mae pob un o'r tri grŵp prosiect yn cael eu Cadeirio gan aelodau'r BGC ac yn darparu diweddariadau ym mhob cyfarfod o'r BGC. Yn ogystal, ym mhob cyfarfod mae un grŵp yn darparu diweddariad manylach, neu sesiwn 'sbotolau', ar ei faes prosiect, gan ddarparu gwybodaeth fanwl am gynnydd, cyflawniadau, dyheadau a phryderon. Yna mae partneriaid y BGC yn cael y cyfle i ofyn cwestiynau a darparu cefnogaeth i ddatrys unrhyw faterion. Mae arweinwyr prosiectau nad ydynt yn cymryd rhan yn y sesiynau sbotolau yn darparu adroddiad ysgrifenedig byr ar gyfer pob cyfarfod lle maent yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch prosiect gan gynnwys cynnydd cyffredinol; yr hyn sydd wedi mynd yn dda; a fu unrhyw faterion/rhwystrau; pa ymgysylltu/cynnwys sydd wedi digwydd neu sydd wedi'i gynllunio; a beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf. Amlinellwyd y dull hwn gan Gadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nigwyddiad dysgu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn Wrecsam ym mis Chwefror 2024, lle cafodd adborth cadarnhaol.

Er bod y gwaith o gyflawni'r cynllun yn mynd rhagddo'n dda, erys sawl maes lle mae angen trafodaeth bellach er mwyn sicrhau nid yn unig ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau o ran cyflawni'r Cynllun Llesiant, ond ein bod hefyd yn ei gyflawni'n dda. Er enghraifft, er bod y prosiectau'n ymddangos yn wahanol iawn, mae materion trawsbynciol clir a ddaeth i'r amlwg drwy ddatblygu'r cynlluniau prosiect a thrwy adborth a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant. Felly, mae angen ystyried sut y bydd y gweithgarwch trawsbynciol hwn yn cael ei nodi ac archwilio sut y gellir cydgysylltu'r gwaith cyflawni.

O ran ymgysylltu, yn ogystal â chynnwys dinasyddion a chymunedau wrth gyflawni, mae'n bosibl y bydd angen cynnwys partneriaid a sefydliadau y tu allan i'r BGC ar gyfer rhai o'r prosiectau a bydd angen adnoddau sylweddol arnynt i'w cyflawni. Mae hefyd angen archwilio hyn ymhellach, i nodi pwy allai'r sefydliadau hyn fod a cheisio nodi'r adnoddau y bydd eu hangen i gyflawni elfennau mwy uchelgeisiol y prosiectau. Dylem hefyd ystyried yn ofalus sut y gall cymunedau ymwneud yn ystyrlon â chyflawni rhai meysydd o fewn y cynllun.

Yn ogystal ag adrodd ar gynnydd mewn cyfarfodydd BGC, mae hefyd yn ofynnol i'r BGC o bryd i'w gilydd ddarparu diweddariadau cynnydd i Bwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Awdurdod Lleol dynodedig. Mae Panel Partneriaethau'r Cyngor yn gyfrifol am ddarparu atebolrwydd democrataidd a throsolwg o waith y BGC a gall adolygu neu graffu ar y penderfyniadau a wneir neu'r camau a gymerwyd gan y BGC ac adolygu ei drefniadau llywodraethu. Gall hefyd ofyn i unrhyw aelod unigol o'r BGC ddod ger ei fron i graffu ar y cyfraniad y mae ei sefydliad partner yn ei wneud i waith y BGC.



# BLWYDDYN 1 – Gweithgaredd is-grŵp prosiect

Mae gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro dri grŵp prosiect lefel Arian ar waith a'u rôl yw cyflawni ein cynlluniau prosiect;

- Grŵp Tlodi
- Grŵp Cryfhau Cymunedau
- Grŵp Natur, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd

Mae pob un o'r grwpiau hyn yn cael eu harwain gan aelod o'r BGC i sicrhau atebolrwydd a chysondeb. Amlinellir isod rai o gyflawniadau allweddol y grwpiau hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

## Grŵp Tlodi

**(Cadeirydd – Darren Mutter, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro)**

## Cefndir

OSefydlwyd ein Grŵp Tlodi i ddechrau fel grŵp awdurdod lleol sy'n edrych ar dlodi plant, ond ers hynny mae wedi'i ehangu i ystyried ystod ehangach o faterion ac i gynnwys ystod ehangach o bartneriaid. Mae'r grŵp yn canolbwyntio'n bennaf ar gyflawni'r Strategaeth Trechu Tlodi ac ar helpu aelodau a swyddogion y BGC i ddeall y materion a wynebir gan bobl o bob grŵp oedran y bydd y Strategaeth yn cyflawni ar eu cyfer.

## Yn ystod 2023-24 mae'r grŵp wedi gwneud y canlynol…

- Defnyddio'r cyllid sydd ar gael i gefnogi mentrau sy'n canolbwyntio ar dlodi yn Sir Benfro, gan roi cymorth i fanciau bwyd ac i gefnogi'r ymgyrch Mannau Clyd lleol
- Cyhoeddi Strategaeth Trechu Tlodi, sy'n ystyried y materion blaenoriaeth y mae pobl yn ein sir yn eu hwynebu wrth brofi caledi, ac yn nodi'r hyn sy'n gweithio i gefnogi pobl i lywio eu hunain i amgylchiadau gwell
- Cynnal Uwchgynhadledd Tlodi gyntaf, gan gynnwys cyfraniadau gan Sefydliad Bevan, National Energy Action a phrosiect ymchwil lleol yn edrych ar brofiad byw o dlodi yn Sir Benfro (dan arweiniad Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro)
- Datblygu system ar gyfer monitro cyflawniad y strategaeth i adrodd yn ôl i'r prif BGC

## Y 12 mis nesaf

- Adolygiad blynyddol o'r strategaeth i sicrhau bod y cynnwys yn berthnasol ac yn gyfredol a bod profiadau byw pobl yn cael eu hadlewyrchu'n briodol yn y strategaeth
- • Ehangu aelodaeth y Grŵp Tlodi i gynnwys y rhai sydd â phrofiad byw o dlodi sy'n barod i herio arweinwyr i adolygu a myfyrio ar eu gwaith
- Gwahodd cynrychiolaeth o ysgolion i'r Grŵp Tlodi hefyd, gan eu bod yn fwyaf aml ar y rheng flaen o ran gweld sut mae tlodi'n effeithio ar blant a phobl ifanc yn ein cymunedau
- Ystyried sefydlu grŵp profiad byw lefel Efydd i ddeall ganddynt beth fyddai'n gwneud gwahaniaeth i wella eu hamgylchiadau

**Grŵp Cryfhau Cymunedau**
**(Cadeirydd – Y Cynghorydd Neil Prior, Cyngor Sir Penfro)**

## Cefndir

Bwriad gwaith y grŵp hwn yw adeiladu ar rôl ganolog ein cymunedau wrth gyflwyno mentrau newydd a ffyrdd newydd o weithio gyda darparwyr gwasanaeth traddodiadol o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mae gan ein cymunedau sgiliau ac asedau y gellir eu defnyddio er budd y cyhoedd ac ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyfartal â'r sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae aelodaeth y grŵp yn adlewyrchu ei fod yn canolbwyntio ar gryfhau a grymuso ein cymunedau i fodloni her gwasanaethau cyhoeddus cyfyngedig yn y dyfodol a hyrwyddo gweithio ochr yn ochr â phobl leol ar y pethau sydd bwysicaf i'w cymunedau.

## Yn ystod 2023-24 mae'r grŵp wedi gwneud y canlynol…

- Cynnal Cynhadledd Cymunedau 'Cysylltu'r Dotiau i Bawb Fyw'n Dda yn Sir Benfro' ym mis Hydref 2023, a fynychwyd hefyd gan dîm datblygu polisi cymunedol Llywodraeth Cymru
- Nodi grŵp cyflawni sylfaenol ar lefel Efydd ar gyfer elfennau gweithredol cynllun prosiect Cryfhau Cymunedau, sydd wedi nodi meysydd cyflawni â blaenoriaeth ac arweinwyr sefydliadol
- Ymgysylltu aml-asiantaeth parhaus a meithrin perthnasoedd er mwyn cynhyrchu cynllun cyflawni manylach ar gyfer y grŵp wrth symud ymlaen

## Y 12 mis nesaf

- Canolbwyntio ar y blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg a nodwyd gan y grŵp cyflawni a sut y gellir integreiddio'r rhain mewn cynllun cyflawni manwl
- Parhau i ymgysylltu a meithrin perthnasoedd aml-asiantaeth er mwyn nodi cyfleoedd pellach i gefnogi gwaith y grŵp

## Grŵp Natur, Datgarboneiddio a Newid Hinsawdd

**(Cadeirydd – Caroline Drayton, Rheolwr Gweithrediadau (De-orllewin Cymru), Cyfoeth Naturiol Cymru)**

## Cefndir

Fel rhan o gyflawni ein Cynllun Llesiant cyntaf, sefydlwyd grŵp i gyflawni'r elfennau amgylcheddol ynddo. Ar gyfer ein cynllun newydd, adolygwyd ac ehangwyd aelodaeth y grŵp hwn, er mwyn canolbwyntio'n well ar gyflawni elfennau Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd ac Argyfwng Natur y cynllun newydd; Bioamrywiaeth a'r Argyfwng Natur; Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd; a Datgarboneiddio a Sero Net.

## Yn ystod 2023-24 mae'r grŵp wedi gwneud y canlynol…

- Nodi angen am adnoddau ychwanegol i gefnogi'r gwaith o gyflawni adran Bioamrywiaeth ac Argyfwng Natur y cynllun prosiect
- Dechreu ar y gwaith o flaenoriaethu camau gweithredu a nodwyd yn Strategaeth Ymaddasu i Newid Hinsawdd Sir Benfro
- Cefnogi gwaith i ddatblygu hyfforddiant Llythrennedd Carbon pwrpasol a modiwlau e-ddysgu ar gyfer partneriaid y BGC

## Y 12 mis nesaf

- Continue to try to identify resource to lead coordination, prioritise and progress delivery of actions across all three project plans within the Tackling Climate Change and the Nature Emergency part of the Plan

## Astudiaeth Achos – Uwchgynhadledd Tlodi

IYm mis Chwefror 2024 cynhaliwyd Uwchgynhadledd Trechu Tlodi gyntaf Sir Benfro yng Ngholeg Sir Benfro. Daeth y digwyddiad â chroestoriad o weithwyr proffesiynol ac arweinwyr lleol ynghyd o amrywiaeth o sefydliadau, ochr yn ochr ag aelodau'r BGC, i archwilio atebion i liniaru tlodi yn yr ardal leol.

Clywodd y rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiad gan nifer o siaradwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith hwn, gan dderbyn cyflwyniadau gan Sefydliad Bevan, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, National Energy Action a Chymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro.

Rhoddodd Dr Steffan Evans o Sefydliad Bevan drosolwg cenedlaethol o dlodi, gan dynnu sylw at y rhai yr effeithir arnynt fwyaf gan yr argyfwng costau byw a siaradodd hefyd am effaith tlodi ar gymunedau gwledig. Yn benodol, nododd y gwahaniaethau mewn mathau o waith a chyflog isel o gymharu â gweddill Cymru a siaradodd am y 'premiwm costau byw gwledig'.

Mae'r rhain yn faterion sy'n effeithio'n bennaf ar ardaloedd gwledig, ac mae'r effeithiau'n cynnwys; costau tai uchel o gymharu ag incwm; ei bod yn ddrutach gwresogi cartrefi; diffyg trafnidiaeth gyhoeddus; gall fod yn anodd cael gafael ar ofal plant; a bod ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o fod wedi cael eu heffeithio gan yr argyfwng costau byw.




Siaradodd Dr Rob Green, Ymgynghorydd Iechyd Cyhoeddus o Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda am sut mae'r berthynas rhwng tlodi ac iechyd yn bodoli mewn system gymhleth sy'n newid yn ôl y rhyngweithio rhwng unigolion a'u hamgylchedd. Tynnodd sylw at hyn drwy egluro y gall unrhyw un brofi tlodi ac y gall gael ei achosi gan nifer o faterion, gan gynnwys diweithdra a diffyg tai fforddiadwy, ond hefyd gan brofedigaeth ac afiechyd, sydd ei hun yn gallu cael ei achosi gan dlodi. Mae llai o fynediad at fwyd iach a mwy o fynediad at fwyd a gweithgareddau afiach yn faterion sy'n gysylltiedig â thlodi sy'n effeithio ar iechyd. Gall tlodi hefyd ysgogi anghydraddoldebau mewn canlyniadau iechyd a chynyddu'r defnydd o wasanaethau iechyd.

Rhoddodd Ben Saltmarsh a Maisie Chatfield o National Energy Action drosolwg o sut mae tlodi tanwydd yn effeithio ar gymunedau yng Nghymru. Amlygwyd effaith y cynnydd yn y cap ar brisiau ynni a chymorth Llywodraeth y DU, y cymorth sydd ar gael gan gynlluniau a gynlluniwyd i gynyddu effeithlonrwydd ynni cartrefi a materion yn ymwneud â mesuryddion ynni rhagdaledig.

Yn olaf, rhoddodd Sarah Hughes o Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro gyflwyniad trawiadol o ymchwil a wnaed gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro ynghylch mynd i'r afael â thlodi yn Sir Benfro. Dechreuodd drwy roi trosolwg o brofiadau pobl sy'n byw mewn tlodi, cyn symud ymlaen at ganfyddiadau allweddol a themâu ac awgrymiadau ar gyfer gwella wrth fwrw ymlaen. Gellir gweld yr adroddiad llawn ar yr ymchwil a fideo byr ar wefan Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro; https://www.pavs.org.uk/influencing-engagement/current-projects/

Yn hollbwysig, tynnodd yr holl gyflwynwyr sylw at yr angen i gydweithio, ar draws y sectorau statudol, gwirfoddol a chymunedol, er mwyn lleddfu effeithiau tlodi. Gofynnwyd hefyd i'r rhai a oedd yn bresennol yn y digwyddiad lofnodi eu Haddewid Tlodi eu hunain, i ddangos ymdeimlad o gyfrifoldeb a rennir ac i ddangos eu hymrwymiad i wneud gwahaniaeth yn Sir Benfro. Enghreifftiau o rai o'r addewidion hyn yw;

- Mynnu rhagor o wybodaeth am gymorth i deuluoedd a gwneud yn siŵr ei fod ar gael i fwy o deuluoedd yng nghymuned yr ysgol.
- Canolbwyntio o'r newydd ar degwch ar draws ardal y bwrdd iechyd.
- Yn ystod 2024 yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol creu o leiaf 80 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ym Mhorthladd Aberdaugleddau.
- Cynnal adolygiad o gontractau ynghylch y cyflog byw cenedlaethol a gweithio gyda darparwyr i symud i hyn fel safon ofynnol.
- Addysgu, hyrwyddo hawliau a gweithio gyda phobl ifanc sy'n profi tlodi ac ar yr un pryd sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.
- Meddwl am effaith pob penderfyniad ar dlodi yr wyf yn ymwneud ag efwneud ag ef.
- Rhannu canfyddiadau heddiw â fy staff.
- Cofrestru fel cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol.

Y bwriad yw cynnal Uwchgynhadledd Tlodi yn flynyddol, i rannu dysg a phrofiadau, gyda'r nod o ddangos sut y gall gweithredu ar y cyd achosi newid a lleddfu caledi yn Sir Benfro. Ffilmiwyd fideo yn y digwyddiad lle mae aelodau'r BGC yn rhoi cyflwyniad i waith y BGC ac yn esbonio sut, trwy gydweithio â chymunedau, mae'r BGC yn gobeithio gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl sy'n byw yn Sir Benfro. Mae'r fideo i'w weld ar dudalennau gwe y BGC yn https://www.sir-benfro.gov.uk/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus/prosiectau



# Arolwg o Aelodau'r BGC – syniadau ar gynnydd a rhwystrau i gyflawni

Wrth baratoi ar gyfer ysgrifennu'r Adroddiad Blynyddol hwn, gwahoddwyd aelodau'r BGC i gwblhau arolwg byr yn gofyn iddynt ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- Beth ydych chi'n meddwl sydd wedi mynd yn dda dros 12 mis cyntaf Cynllun Llesiant newydd Sir Benfro?
- Yn eich barn chi, beth oedd y prif heriau neu rwystrau i gynnydd?
- A oes unrhyw beth y credwch y gallwn ei wneud dros y 12 mis nesaf i geisio goresgyn y rhain?

## Beth ydych chi'n meddwl sydd wedi mynd yn dda dros 12 mis cyntaf Cynllun Llesiant newydd Sir Benfro?

Roedd aelodau'r BGC yn hapus â'r strwythur cyflawni a'r trefniadau adrodd, y maent yn eu gweld yn helpu i ddwyn aelodau i gyfrif am eu rolau wrth gyflawni'r cynllun. Roedd cysylltu'r BGC â'r ddarpariaeth weithredol ar lawr gwlad a chysylltu â grwpiau sydd eisoes wedi'u sefydlu yn gam cadarnhaol hefyd.

Roedd yr aelodau hefyd yn gwerthfawrogi canolbwyntio ar drafodaeth yn hytrach na chyflwyniadau ac adolygiadau rheolaidd o gynnydd mewn cyfarfodydd y BGC, lle mae aelodau'r bwrdd yn cydnabod eu bod yno ar gyfer eu mewnbwn strategol ac i nodi materion i'w datrys o fewn eu sefydliadau eu hunain. Er y nodwyd bod cynnydd wedi bod yn araf ar y cyfan hyd yn hyn, ystyriwyd bod prosiectau'n cael eu halinio'n bennaf tuag at weithio ar y cyd i fynd i'r afael â heriau a rennir.

Nodwyd hefyd bod Sir Benfro wedi'i chynrychioli'n dda yn allanol, er enghraifft yn nigwyddiad dysgu ar y cyd cenedlaethol y BGC ym mis Chwefror 2023 lle rhoddodd Cadeirydd y BGC gyflwyniad yn amlinellu ei brofiadau o arwain gwaith y BGC a'r heriau a'r cyfleoedd cysylltiedig fel rhan o hynny. Yn ogystal, mae BGC Sir Benfro wedi bod yn ymwneud cryn dipyn â gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu polisi cymunedau newydd.

## Yn eich barn chi, beth oedd y prif heriau neu rwystrau i gynnydd?

Nodwyd diffyg adnoddau o ran amser, pobl a chapasiti, a chyllid ar gyfer gwaith y BGC yn fwy cyffredinol, fel rhwystrau i gynnydd. Teimlai aelodau'r BGC fod hyn wedi arwain at beidio â gwireddu llawn botensial y BGC yn ystod y flwyddyn gyntaf oherwydd diffyg adnoddau i gefnogi cynnydd.

Nodwyd hefyd mai ymgysylltiad cyfyngedig sydd gan rai sefydliadau sy'n aelodau o'r BGC â gwaith y BGC a bod angen cyfranogiad mwy gweithredol gan yr aelodau hyn, oherwydd efallai y byddant yn gweld eu rôl ar y Bwrdd fel cynrychioli buddiannau eu sefydliadau yn hytrach na chydweithio fel grŵp.

Mae ymgysylltu â dinasyddion hefyd yn parhau i fod yn her oherwydd gofynion unigol rhai sefydliadau o ran ymdopi â'u hanghenion ymgynghori ac ymgysylltu eu hunain. Mae heriau cymdeithasol ehangach, er enghraifft o ran yr agenda tlodi ac argyfwng costau byw, hefyd wedi herio cynnydd mewn rhai meysydd.

## A oes unrhyw beth y credwch y gallwn ei wneud dros y 12 mis nesaf i geisio goresgyn y rhain?

Awgrymwyd y gallai prosiectau o fewn y Cynllun Llesiant gael eu croesgyfeirio â gwaith presennol sy'n cael ei wneud gan bartneriaid y BGC er mwyn cyflymu camau gweithredu, yn enwedig lle nad oes ffrydiau ariannu ar gael. Dylai sefydliadau nad ydynt yn cymryd rhan lawn yng ngwaith y BGC, gan gynnwys mewn is-grwpiau, gael eu herio ynghylch pam nad ydynt yn cymryd mwy o ran.

Gwnaethom hefyd ofyn i rai o aelodau ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus am eu barn ar yr hyn y maent yn meddwl sy'n gweithio'n arbennig o dda a'r hyn y maent yn edrych ymlaen ato yn y flwyddyn i ddod:

Dywedodd Darren Mutter, sef Cadeirydd y Grŵp Tlodi, **"Mae'r strwythur monitro ac adrodd sydd newydd ei sefydlu yn sicrhau bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn dwyn ei arweinwyr prosiect ac aelodau'r is-grwpiau i gyfrif, gan wneud gweithgaredd y Bwrdd yn fwy pwrpasol, ystyrlon ac effeithiol. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn fy marn i mewn sefyllfa dda i symud ymlaen a pharhau i ehangu ei gyrhaeddiad y tu hwnt i drafodaeth gysyniadol ar lefel uwch, a chael mwy o fanylion am yr hyn sy'n bwysig, pam ei fod yn bwysig a'r hyn y mae angen ei wneud."**

Dywedodd Dr Barry Walters, sef Pennaeth Coleg Sir Benfro, **"O ran prif flaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o gefnogi'r rhai mewn tlodi, y gymuned a heriau'r hinsawdd, mae pob un ohonynt yn feysydd pwysig yr ydym yn dymuno gweithio arnynt gyda'n cymuned o fyfyrwyr yng Ngholeg Sir Benfro i godi ymwybyddiaeth a sianelu ein hegni i helpu i fynd i'r afael â'r pryderon cysylltiedig. Rydym yn gweithio gyda'n cyngor dysgwyr i sicrhau bod pob myfyriwr yn ymwybodol o'r blaenoriaethau hyn, ac yn meddwl sut y gallant gyfrannu at fynd i'r afael â materion o'r fath. Roeddem hefyd yn falch o gynnal yr Uwchgynhadledd Trechu Tlodi yng Ngholeg Sir Benfro. Bu cryn ddadlau ynghylch yr heriau ariannol y mae pobl yn y gymuned yn eu hwynebu ar hyn o bryd a chyflwynwyd ystod o addewidion gan y rhai a oedd yn bresennol o ganlyniad i'r digwyddiad. Edrychwn ymlaen at weld yr effaith gadarnhaol a geir gan yr addewidion hyn ar y gymuned leol."**

Dr. Barry Walters, Principal of Pembrokeshire College, said **"In terms of the key PSB priorities of supporting those in poverty, the community and climate challenges, all are important areas which we wish to work with our student community at Pembrokeshire College to raise awareness and channel energies into helping address the associated concerns. We are working with our Learner Council to ensure all students are conscious of these priorities, and think about how they can contribute to tackling such issues. We were also pleased to host the Poverty Summit at Pembrokeshire College. There was much debate about the financial challenges that people in the community are facing at the current time and a range of pledges were put forward by those present as the outcome of the event. We look forward to seeing the positive impact that these pledges have on the local community."**

Yn olaf, dywedodd Claire Germain, ein cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, **"Mae'n bleser eistedd ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Sir Benfro a gweld yr angerdd a'r ymrwymiad i wella llesiant yr ardal. Rwy'n falch o allu chwarae fy rhan yn y gwaith o gysylltu gweithredu lleol a chenedlaethol ar bynciau pwysig fel trechu tlodi, cryfhau cymunedau ac ymateb i heriau newid hinsawdd."**

# Edrych Ymlaen – Blwyddyn 2

Fel grŵp sy'n cynrychioli ystod eang o sefydliadau, sydd oll yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, rydym mewn sefyllfa unigryw i ddefnyddio ein hadnoddau cyfunol. Fodd bynnag, yn gynyddol mae'r fantais hon yn cael ei thanseilio gan yr heriau ariannol y mae holl aelodsefydliadau'r BGC yn eu hwynebu.

Yn ystod blwyddyn gyntaf cyflawni'r Cynllun Llesiant rydym wedi nodi nifer o feysydd y bydd angen i ni ganolbwyntio arnynt dros y 12 mis nesaf;

***Nodi themâu a materion trawsbynciol*** – mae angen i ni ystyried sut i fynd i'r afael â'r mater pwysig hwn a'i ymgorffori yn y gwaith cyflawni lle bo angen, cyn i brosiectau unigol gymryd gormod o gamau ymlaen.

***Ymgysylltu a chymryd rhan*** – mae angen i ni archwilio'n fanylach yr hyn a olygwn wrth 'gyfranogiad ystyrlon' ar gyfer pob un o'r tri maes prosiect ac unrhyw feysydd gwaith trawsbynciol, yn ogystal â sut y byddwn yn ei ddangos.

***Cyfranogiad aelodau'r BGC*** – mae angen inni edrych ar sut i ysgogi holl aelodau'r BGC i gymryd rhan fwy weithredol a nodi'r materion sylfaenol y gallai fodoli sy'n rhwystro'r sefydliadau hynny rhag ymgysylltu. Gallwn gyflawni mwy gyda'n gilydd ond dim ond os yw'r holl aelodau'n ymrwymo i'r hyn y mae'r BGC yn ceisio'i gyflawni.

Yn ogystal â'r meysydd ffocws hyn a'r gwaith o gyflawni ein cynllun o ddydd i ddydd, rydym hefyd yn gobeithio ymwneud ymhellach â Thîm Polisi Cymunedau Llywodraeth Cymru wrth iddo ddatblygu Strategaeth Gymunedol i Gymru.

Wrth i ni symud ymlaen i'r ail flwyddyn o gyflawni, byddwn yn parhau i archwilio gwahanol ffyrdd o weithio, gan adeiladu ar ein llwyddiannau a'n cynnydd hyd yma, er mwyn cyflawni'r cynllun. Rydym yn benderfynol fel grŵp o sefydliadau ar gyfer y cyhoedd sy'n gweithredu fel un gwasanaeth cyhoeddus i gyflawni cymaint ag y gallwn, cystal ag y gallwn, gyda'r hyn sydd ar gael gennym, gan ganolbwyntio ar gyflawni ein hamcanion llesiant drwy'r meysydd prosiect a nodwyd a chreu'r amodau i'n cymunedau gyfrannu'n ystyrlon ar hyd y ffordd.





https://www.sir-benfro.gov.uk/bwrdd-gwasanaethau-cyhoeddus